Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

**Mater y Mis Ionawr: Ymgynghoriad ar y Calendr Ysgol**
**Plant o dan 7 oed**

**Gwybodaeth i'r hwylusydd**

Mae mater y mis yma yn canolbwyntio ar gynigion Llywodraeth Cymru i newid dyddiadau'r tymhorau ysgol.

Bydd ein swyddfa yn ymateb i hyn ac fe hoffen ni gynnwys lleisiau plant, pobl ifanc a'r oedolion sy'n eu cefnogi yn ein hymateb i Lywodraeth Cymru.

| **Gweithgaredd** | **Adnoddau ychwanegol/gwybodaeth bellach** |
|---|---|
| Dechreuwch y sesiwn trwy atgoffa'r plant am eu lle diogel. | Os nad ydych chi wedi creu un eto, mae gennym ni ganllaw ar gyfer creu un yma. |
| Dangoswch y fideo yma i'r plant i gychwyn y sesiwn. | |
| Defnyddiwch y powerpoint yma yn ystod y sesiwn.<br><br>Darllenwch yr wybodaeth am Rocio a'i hesbonio. | |
| **Cynnal trafodaeth (pethau cadarnhaol)**<br>Rhannwch gymeriad Ceri gyda'r plant. Mae Ceri'n dwlu ar gael 6 wythnos o wyliau o'r ysgol. Pam mae'n mwynhau gwyliau hir?<br><br>**Syniadau ar gyfer y drafodaeth:**<br>Gallech chi roi cynnig ar y syniadau canlynol i gefnogi'r drafodaeth.<br>- Gofyn i'r plant drafod y syniad mewn parau/grwpiau bach | *Sylwch: Mae blwch yn yr arolwg i chi ychwanegu ymatebion gan y plant, ac ychwanegu unrhyw sylwadau eraill rydych chi'n eu gwneud fel hwylusydd.*<br><br>**Efallai byddwch chi am gefnogi'r drafodaeth trwy ychwanegu cwestiwn ategol:**<br><br>*Beth yw eich barn am gael 6 wythnos o wyliau yn ystod yr haf? Beth ych chi'n mwynhau am hynny?* |

| | |
|---|---|
| ac yna rhoi adborth i'r grŵp cyfan. | |
| **Cynnal trafodaeth (pethau negyddol)**<br>Rhannwch gymeriad Sam gyda'r plant. Dyw Sam ddim yn hoffi gwyliau ysgol sy'n parhau am 6 wythnos, pam dyw Sam ddim yn mwynhau gwyliau hir?<br><br>**Syniadau ar gyfer y drafodaeth:**<br>Gallech chi roi cynnig ar y syniadau canlynol i gefnogi'r drafodaeth.<br>- Gofyn i'r plant drafod y syniad mewn parau/grwpiau bach ac yna rhoi adborth i'r grŵp cyfan.<br><br>Lanlwythwch eu meddyliau yma. | *Sylwch: Mae blwch yn yr arolwg i chi ychwanegu ymatebion gan y plant, ac ychwanegu unrhyw sylwadau eraill rydych chi'n eu gwneud fel hwylusydd.*<br><br>**Cwestiwn ategol:**<br><br>*Beth dydych chi ddim yn mwynhau am wyliau haf hir?* |
| Gorffennwch y sesiwn trwy atgoffa'r disgyblion y byddwn ni'n rhoi adborth ar ffurf diweddariad ddechrau mis nesa. | Efallai byddwch chi am atgoffa'r disgyblion am eu Lle Diogel a'u hatgoffa pwy gallan nhw siarad â nhw yn yr ysgol os byddan nhw'n teimlo'n bryderus. |

## LINC I'R YMGYNGHORIAD LLAWN

Rydyn ni hefyd am annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn ymgynghoriad y Llywodraeth.

Cewch hyd i'r ymgynghoriad (sy'n cau ar 13/02/24) a dogfennau darllen hwylus yma.

Bydd y lincs yma yn galluogi pobl ifanc i ysytyried syniadau y Llywodraeth yn llawn ac i ymateb yn uniongyrchol iddynt:

- gov.wales/schoolyear
- llyw.cymru/flwyddynysgol